CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
21 Gorffennaf 2020, Trwy Zoom
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng W Vaughan, A Williams, C McGregor, D Roberts, A C Jones, A Wyn, E Williams, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng W Williams, C Jones	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng A C Jones
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 09.06.20. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	Llinell wen Dolmeinir – Llyn Cefni - Bydd y Clerc yn atgoffa y Cyngor Sir
4.2	**Baw cwn Mynydd Bodafon** – Dywedodd y Clerc bod Cyfoeth Naturiol Cymru a Cyngor Sir Ynys Mon yn gweithio gyda gilydd I gyflenwi biniau a bydd yn gwneud ymholiadau am y costau.
4.3	**Baw cwn Talwrn** – gweler 4.2
4.4	**Japanese knotweed** -Nid yw'r Cyngor Sir yn gallu trin y knotweed ond maent yn barod i ofyn i'w contractwr ddarparu pris. Bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau pellach
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Amgylchedd
5.1	Baw cwn – gweler 4.2 a 4.3
5.2	Zurich Municipal - Mae asedau'r cyngor wedi cynyddu i £15000. Mae'r Clerc wedi bod mewn cysylltiad â'r yswirwyr ac nid oes premiwm ychwanegol yn ddyledus
5.3	Japanese knotweed – gweler 4.4
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Arolwg Eithiadol Ynys Mon Cynigion Drafft – gwybodaeth yn unig
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu
7.1	Eisteddfod Talwrn – rhodd £300 – Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng A Williams yn eilio
7.2	Antur Waunfawr – ailgylchu papur £12.00
	Llofnod…….Cadeirydd 15.09.20

8	**MATERION ERAILL**
8.1	Brigau ar y lon – cytuniwyd I dynnu y mater o'r agenda
8.2	Glaswellt ochr y lon Tai Cyngor, Talwrn – Eglwys - mae angen ei ddisodli'n iawn yn dilyn gwaith ffordd – bydd y Clerc yn cysylltu a'r Cyngor Sir
8.3	Costau aelodau - Mae'r Clerc wedi cysylltu â phob aelod trwy e-bost i ofyn a ydyn nhw'n dymuno hawlio treuliau / costau am y flwyddyn 2020/21
8.4	Derbyn y cyfrifon ac adroddiad yr archwiliwr mewnol - Derbyniwyd y cyfrifon blynyddol ar gyfer 2019/20 ynghyd ag adroddiad a sylwadau'r archwilydd mewnol. Cytunwyd bod y cyfrifon yn barod i'w hanfon ymlaen at yr archwilydd allanol
8.5	Adolygu y Rheolau - Adolygwyd y rheolau mewnol, cyllid, sefydlog a risg gyda dim newidiadau
9	**MATERION AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Eglwys Sant Mihangel - Friends of Friendless Churches
	Llofnod…….Cadeirydd 15.09.20